



Department
for Environment
Food & Rural Affairs



Scottish Government
Riaghaltas na h-Alba



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ymgynghoriad ar ofynion cofrestru arfaethedig pob ceidwad adar ym Mhrydain Fawr

Dogfen ymgynghori

Mawrth 2023

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Ni yw Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. Rydym yn gyfrifol am wella a diogelu'r amgylchedd, tyfu'r economi werdd, cynnal cymunedau gwledig ffyniannus, a chefnogi ein diwydiannau bwyd, ffermio a physgota o'r radd flaenaf.

Rydym yn gweithio'n agos gyda'n 33 o asiantaethau a chyrff hyd braich ar ein huchelgais i wneud ein haer yn burach, ein dŵr yn lanach, ein tir yn wyrddach, a'n bwyd yn fwy cynaliadwy. Ein cenhadaeth yw adfer a gwella'r amgylchedd ar gyfer y genhedlaeth nesaf, a gadael yr amgylchedd mewn cyflwr gwell nag y daethom o hyd iddo.



© Hawlfraint y Goron 2023

Mae'r wybodaeth hon wedi'i thrwyddedu o dan Drwydded Llywodraeth Agored v3.0. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylai unrhyw ymholiad ynghylch y cyhoeddiad hwn gael ei anfon atom yn

poultry&captivebirdsregistrationconsultation@defra.gov.uk

www.gov.uk/defra

Cynnwys

Cyflwyniad	4
Diben yr ymgynghoriad hwn	4
Ehangder daearyddol a diffiniadau	5
Cynulleidfa	5
Ymateb i'r ymgynghoriad hwn.....	5
Gwybodaeth am gyfrinachedd a diogelu data	6
Amdanoch chi	7
Cefndir a chynnig	9
Polisi arfaethedig	12
Cwestiynau penodol i'r ymgynghoriad	14
Cwestiynau cyffredinol eraill	17
Newidiadau posibl yn y dyfodol.....	18

Cyflwyniad

Rydym yn ceisio eich barn ar ein cynlluniau i'w gwneud yn orfodol i bob ceidwad¹ **dofednod**² ac **adar caeth eraill**³ gofrestru ei aderyn/adar gyda'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion.

Ar hyn o bryd, mae'n orfodol i berson sy'n geidwad 50 neu ragor o ddofednod mewn unrhyw safle unigol gofrestru ei adar ar gofrestr dofednod Prydain Fawr drwy ddarparu gwybodaeth benodedig am yr adar. Mae'r wybodaeth ar y gofrestr yn galluogi'r llywodraeth i gyfathrebu â cheidwaid dofednod yn gyflym, i reoli unrhyw achosion posibl o glefyd, ac i gyflawni gweithgareddau cysylltiedig ag achosion o'r fath yn effeithiol.

Diben yr ymgynghoriad hwn

Pwrpas yr ymgynghoriad hwn yw ceisio barn ar gynigion y llywodraeth i fynnu bod pob ceidwad **dofednod ac adar caeth eraill** yn cofrestru ei adar. Mae tri opsiwn yn cael eu hystyried, gan gynnwys opsiwn gwneud dim.

Bydd y newidiadau arfaethedig yn diwygio'r gofynion cofrestru dofednod presennol ar gyfer ceidwaid â 50 a mwy o ddofednod ac yn ymestyn hyn i **bob ceidwad adar**. Mae cynigion yr ymgynghoriad yn symud yr argymhelliad ymlaen o [adolygiad 2018 y Fonesig Glenys Stacey](#) a gynhaliwyd ar gyfer Lloegr a'r gwersi a nodwyd o'r brigiad o achosion ffliw adar pathogenig iawn (HPAI) H5N1 (a elwir hefyd yn ffliw adar) yn 2021/2022 ac achosion HPAI blaenorol.

Er bod polisi iechyd anifeiliaid yn fater datganoledig, mae llywodraeth y DU, llywodraeth yr Alban a llywodraeth Cymru wedi cytuno i gydweithio i sicrhau bod gwybodaeth ddigonol am bob safle adar yn cael ei chasglu ledled Prydain Fawr. Dim ond ym Mhrydain Fawr (Cymru, Lloegr a'r Alban) y bydd y diwygiadau penodol a gynigir yn yr ymgynghoriad hwn yn cael effaith.

¹ Mae "ceidwad" yn golygu'r unigolyn sydd â'r cyfrifoldeb o ddydd i ddydd am ddofednod neu adar caeth eraill ar unrhyw safle.

² Mae "dofednod" yn golygu pob aderyn sy'n cael ei fagu neu ei gadw mewn caethiwed ar gyfer cynhyrchu cig neu wyau i'w bwyta, ar gyfer cynhyrchu cynhyrchion masnachol eraill, ar gyfer ailstocio cyflenwadau helgig, neu at ddiibenion unrhyw raglen fridio ar gyfer cynhyrchu'r categorïau hyn o adar.

³ Mae "adar caeth eraill" yng Nghymru a Lloegr yn golygu unrhyw aderyn a gedwir mewn caethiwed nad yw'n ddofednod ac sy'n cynnwys aderyn anwes ac unrhyw aderyn a gedwir ar gyfer sioeau, rasys, arddangosfeydd, cystadlaethau, bridio neu ei werthu; neu

Yn yr Alban, mae adar caeth eraill yn golygu unrhyw aderyn, ac eithrio dofednod, a gedwir mewn caethiwed, gan gynnwys unrhyw aderyn a gedwir ar gyfer sioeau, rasys, arddangosfeydd a chystadlaethau (fel adar addurniadol a cholomennod rasio).

Ehangder daearyddol a diffiniadau

Oni nodir yn wahanol, mae cyfeiriadau at 'lywodraeth' yn gyfeiriadau at lywodraeth y DU, llywodraeth yr Alban a llywodraeth Cymru.

Felly mae'r ddogfen hon a disgrifiadau o'r gyfraith bresennol yn ymwneud â Chymru, Lloegr a'r Alban. Mae cyfeiriadau at weinidogion perthnasol yn gyfeiriadau at weinidogion o bob llywodraeth.

Cynulleidfa

Er bod rhai o'r materion a drafodir yma yn berthnasol i bobl sy'n berchen ar unrhyw fath o aderyn neu'n ei gadw, gall unrhyw un ateb. Hoffem glywed gan unrhyw unigolyn neu sefydliad sydd â diddordeb yn y mater hwn.

Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

Bydd yr ymgynghoriad hwn yn rhedeg am 12 wythnos. Mae'r ymgynghoriad yn agor ar 07 Mawrth 2023 ac yn cau ar 31 Mai 2023. Dylid derbyn ymatebion erbyn 11.59pm ar 31 Mai 2023. Yn anffodus, ni fydd unrhyw ymatebion a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu dadansoddi. Gallwch ymateb drwy ein harolwg ar Citizen Space.

Os na allwch ddefnyddio Citizen Space, cysylltwch â ni yn:

poultry&captivebirdsregistrationconsultation@defra.gov.uk

Mae Defra yn rheoli'r broses ymgynghori ar ran llywodraeth y DU, llywodraeth yr Alban a llywodraeth Cymru. Bydd gan lywodraethau Cymru a'r Alban fynediad i'r ymatebion i'r ymgynghoriad a ddarperir trwy ganolbwynt ymgynghori Citizen Space.

Ymatebion gan ymgyrchoedd

Rydym yn cydnabod y gall ymatebwyr ddewis defnyddio rhywfaint o destun safonol i lywio eu hymateb. Ymgyrchoedd yw pan fydd sefydliadau (neu unigolion) yn cydlynu ymatebion ar draws eu haelodaeth neu sylfaen cymorth, yn aml trwy awgrymu geiriau penodol i ymatebwyr eu defnyddio. Mae ymatebion gan ymgyrchoedd fel arfer yn debyg iawn neu'n union yr un fath â'i gilydd. Ar gyfer yr ymgynghoriad hwn, gellir dadansoddi ymatebion gan ymgyrchoedd ar wahân i ymatebion eraill er mwyn sicrhau y gellir crynhoi ehangder y safbwyntiau a dderbynnir yn effeithiol ac yn effeithlon. Bydd holl ymatebion gan ymgyrchoedd yn cael eu hystyried yn y dadansoddiad terfynol o farn y cyhoedd ac mae ymgyrchoedd yn helpu i roi syniad o gryfder y teimladau ar fater. Y llwybr a ffeirir i'r holl ymatebwyr roi eu barn (gan gynnwys lle mae ymateb yn seiliedig ar ymgyrch) yw drwy lwyfan Citizen Space.

Gwybodaeth am gyfrinachedd a diogelu data

Bydd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gyhoeddi ar wefan y llywodraeth yn: www.gov.uk/defra. Bydd atodiad i grynodedd yr ymgynghoriad yn rhestru'r holl sefydliadau a ymatebodd ond ni fydd yn cynnwys enwau personol, cyfeiriadau na manylion cyswllt eraill.

Gall Defra gyhoeddi cynnwys eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn er mwyn sicrhau ei fod ar gael i'r cyhoedd heb eich enw personol a'ch manylion cyswllt preifat (e.e. cyfeiriad cartref, cyfeiriad e-bost, ac ati).

Os cliciwch ar 'Hoffwn' mewn ymateb i'r cwestiwn sy'n gofyn a hoffech i unrhyw beth yn eich ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, gofynnir i chi nodi'n glir pa wybodaeth yr hoffech iddi gael ei chadw'n gyfrinachol ac egluro'ch rhesymau dros gyfrinachedd. Y rheswm am hyn yw y gallai gwybodaeth mewn ymatebion i'r ymgynghoriad hwn gael ei rhyddhau i'r cyhoedd neu bartïon eraill yn unol â'r gyfraith mynediad at wybodaeth (y rhain yn bennaf yw Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Deddf Diogelu Data 2018). Mae gennym rwymedigaethau, yn bennaf o dan Reoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Deddf Diogelu Data 2018, i ddatgelu gwybodaeth i dderbynwyr penodol neu i'r cyhoedd o dan rai amgylchiadau. O ystyried hyn, byddai eich esboniad o'ch rhesymau dros ofyn am gyfrinachedd ar gyfer eich ymateb cyfan neu ran ohono yn ein helpu i gydbwysu'r rhwymedigaethau hyn ar gyfer datgelu yn erbyn unrhyw rwymedigaeth cyfrinachedd. Os byddwn yn derbyn cais am yr wybodaeth a ddarparwyd gennych yn eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn, byddwn yn rhoi ystyriaeth lawn i'ch rhesymau dros ofyn am gyfrinachedd i'ch ymateb, ond ni allwn warantu y gellir cadw cyfrinachedd dan bob amgylchiad.

Os cliciwch ar 'Na hoffwn' mewn ymateb i'r cwestiwn sy'n gofyn a hoffech i unrhyw beth yn eich ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, byddwn yn gallu rhyddhau cynnwys eich ymateb i'r cyhoedd, ond ni fyddwn yn gwneud eich enw personol a manylion cyswllt preifat ar gael i'r cyhoedd.

Mae'n bosibl y bydd adegau pan fydd Defra yn rhannu'r wybodaeth a ddarperir gennych mewn ymateb i'r ymgynghoriad, gan gynnwys unrhyw ddata personol, gyda dadansoddwyr allanol. Mae hyn at ddibenion dadansoddi ymatebion i'r ymgynghoriad a darparu adroddiad o'r crynodeb o ymatebion yn unig.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gynnal yn unol ag "[egwyddorion ymgynghori](#)" Swyddfa'r Cabinet.

Dewch o hyd i'n hysbysiad preifatrwydd diweddaraf wedi'i lanlwytho fel dogfen gysylltiedig ochr yn ochr â'n dogfen ymgynghori.

Os oes gennych unrhyw sylwadau neu gwynion am y broses ymgynghori, anfonwch nhw at:

Consultation on registration requirements for all bird keepers

Consultation Coordinator, Defra

2nd Floor, Foss House, Kings Pool,

1-2 Peasholme Green, York, YO1 7PX

Neu anfonwch e-bost at: consultation.coordinator@defra.gov.uk

Amdanoch chi

1. A hoffech chi i'ch ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol? (Dewiswch un opsiwn yn unig)

- Hoffwn
- Na hoffwn

Os ateboch 'Hoffwn' i'r cwestiwn hwn, rhowch eich rheswm

2. Beth yw eich enw?

3. Beth yw eich cyfeiriad e-bost?

Mae hyn yn ddewisol, ond os rhowch eich cyfeiriad e-bost, byddwch yn gallu dychwelyd i olygu'ch ymateb i'r ymgynghoriad yn Citizen Space ar unrhyw adeg nes i chi ei gyflwyno. Byddwch hefyd yn derbyn e-bost cydnabod pan fyddwch yn cyflwyno ymateb wedi'i gwblhau.

4. Pa un sy'n eich disgrifio chi orau? (ticiwch un opsiwn yn unig):

- Corff masnach sector neu sefydliad aelodaeth – mewn rhinwedd swydd swyddogol sy'n cynrychioli'r corff masnach
- Sefydliad ymchwil – mewn rhinwedd swyddogol fel cynrychiolydd sefydliad ymchwil
- Elusen
- Busnes – mewn rhinwedd swyddogol yn cynrychioli barn busnes
- Unigolyn – rydych chi'n ymateb gyda'ch barn bersonol, yn hytrach na fel cynrychiolydd swyddogol o fusnes / cymdeithas busnes / sefydliad arall
- Arall (manywch isod os gwelwch yn dda)

Atebwch gwestiwn 5 dim ond os ydych yn ymateb ar ran sefydliad neu fusnes.

5. Rhowch enw'r sefydliad/busnes yr ydych yn ei gynrychioli.

6. Nodwch pa leoliad y mae eich ymateb yn perthyn iddo, gan ddewis o'r canlynol (dewiswch bob un sy'n berthnasol):

- Lloegr
- Yr Alban

- Cymru
- Gogledd Iwerddon
- Arall (manylwch isod os gwelwch yn dda)

7. A ydych chi, neu'r sector yr ydych yn ei gynrychioli yn cadw dofednod neu adar caeth eraill? (ticiwch bob un sy'n berthnasol)

- Dofednod²
- Adar caeth eraill³
- Nid wyf i neu nid ydym ni yn cadw adar

8. A ydych chi'n cadw unrhyw rai o'r rhywogaethau dofednod neu adar caeth eraill canlynol? (ticiwch bob un sy'n berthnasol):

Rhywogaethau dofednod:

- Ieir
- Gwyddau
- Hwyaidd
- Twrcïod
- Colomennod (wedi'u bridio neu eu magu ar gyfer cig)
- Soflieir
- Petris
- Ffesantod
- Ieir gini
- Ratidau (emws, estrys, ac ati)
- Rhywogaethau dofednod eraill (nodwch isod)

Rhywogaethau adar caeth eraill

- Columbiformes (colomennod rasio, colomennod, colomennod tin-dros-ben a brychion unig)
- Adar ysglyfaethus
- Adar addurnol a gedwir i'w harddangos neu ar gyfer arddangosiadau neu mewn adardai – er enghraifft, llinosiaid a chaneris)
- Psittaciformes (parotiaid, parotanod, macawiaid, byjis)
- Arall (manylwch isod os gwelwch yn dda)
- Nid wyf i neu nid ydym ni yn cadw adar

9. At ba rai o'r dibenion canlynol ydych chi'n cadw adar (dofednod neu adar caeth eraill)? (ticiwch gynifer ag sy'n berthnasol):

- Ar gyfer bwyta cig yn bersonol
- Ar gyfer bwyta wyau yn bersonol
- Bridio ar gyfer dodwy wyau
- Dodwy wyau
- Bridio ar gyfer cig
- Magu ar gyfer cig
- Tyfu cywennod hyd at adeg dodwy

- Ailstocio adar hela sy'n bridio
- Bridio adar hela
- Rhyddhau adar hela
- Rasio
- Fel anifeiliaid anwes
- Sioeau neu arddangosfeydd
- Fel rhan o gasgliad swolegol neu gadwraeth neu at ddibenion addysgol
- Dibenion achub neu adsefydlu
- Hebogyddiaeth neu hela
- Marchogaeth (estrys)
- Dibenion eraill (nodwch)
- Nid wyf i neu nid ydym ni yn cadw adar

10. Faint o adar yr ydych chi (neu eich sefydliad) yn eu cadw?

- 1 – 9
- 10 – 49
- 50 – 100
- Dros 100
- Nid wyf i neu nid ydym ni yn cadw adar

Cefndir a chynnig

Anogir pob ceidwad dofednod ym Mhrydain Fawr ar hyn o bryd i gofnodi'r ffaith eu bod yn cadw dofednod drwy gofrestru gyda'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion, ond dim ond ceidwad â 50 neu fwy o ddofednod mewn unrhyw safle unigol y mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith iddo wneud hynny. Ar hyn o bryd, gall ceidwaid dofednod sydd â llai na 50 o adar gofrestru eu hadar yn wirfoddol gan ddefnyddio'r [ffurflen gofrestru](#). Mae'r cofrestriad wedi'i gynnwys yng Nghofrestr Dofednod Prydain Fawr, cronfa ddata a gynhelir gan yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion.

Mae Rheoliad 7 o [Reoliadau Ffliw Adar \(Mesurau Ataliol\) \(Lloegr\) 2006](#) yn Lloegr, Reoliad 7 o [Reoliadau Ffliw Adar \(Mesurau Ataliol\) \(Cymru\) 2006](#) yng Nghymru, ac Erthygl 5 o [Orchymyn Ffliw Adar \(Mesurau Ataliol\) \(yr Alban\) 2007](#) yn yr Alban (y cyfeirir atynt o hyn ymlaen fel "y ddeddfwriaeth") yn nodi gofynion ar gyfer adnabod safleoedd dofednod ym Mhrydain Fawr. Mae'n ofynnol i geidwad sydd â 50 neu fwy o ddofednod hysbysu gweinidogion perthnasol am wybodaeth benodedig sy'n ymwneud â'r dofednod hynny o fewn un mis o gadw dofednod. Mae'r [ffurflen cofrestru dofednod orfodol bresennol](#) yn nodi'r wybodaeth sydd ei hangen ar hyn o bryd gan geidwad i gofrestru ei adar. Mae'r wybodaeth sydd ei hangen ar y ffurflen yn cynnwys:

- manylion y sawl sydd â gofal am y gofal o ddydd i ddydd o'r dofednod (y ceidwad)
- manylion yr unigolyn/cwmni sy'n rhentu neu'n berchen ar y safle(oedd) lle cedwir y dofednod
- y lleoliad lle cedwir y dofednod; mae hyn yn cynnwys enw a chyfeiriad pob safle lle cedwir dofednod, rhif y plwyf sirol, ac ati

- gwybodaeth am yr adar: byddai hyn yn cynnwys y rhywogaeth o ddofednod a gedwir, nifer pob rhywogaeth o ddofednod a gedwir fel arfer, pwrpas cadw'r adar
- y system neu systemau hwsmonaeth a ddefnyddir ar y safle ac ati

Mae'r gofynion cofrestru presennol hefyd yn mandadu'r ceidwad i hysbysu'r gweinidogion perthnasol o fewn un mis o unrhyw newidiadau yn yr wybodaeth ganlynol:

- gwybodaeth gyswllt (enw a chyfeiriad y ceidwad)
- y rhywogaethau o ddofednod a gedwir ar y safle
- cynnydd neu ostyngiad o 20% neu fwy yn nifer yr adar o rywogaethau dofednod, oni bai fod y newidiadau oherwydd amrywiadau rheoli arferol⁴

Lle mae newidiadau i'r wybodaeth uchod, mae'n ofynnol i'r ceidwad lenwi'r [ffurflen gofrestru orfodol](#) ac ailgyflwyno copi wedi'i sganio a'i lofnodi i'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion trwy e-bost neu bost neu dros y ffôn.

Mae unrhyw ddiffyg cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth yn drosedd o dan adran 73 o [Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981](#) (fel y'i diwygiwyd) a gall arwain at gamau gorfodi gan yr awdurdod lleol. Gall unigolyn naill ai gael ei ddeddfrydu i garchar am gyfnod nad yw'n hwy na chwe mis neu gael dirwy, neu'r ddau. Bydd hyn yn parhau i fod yn wir ar gyfer unrhyw ddiwygiadau arfaethedig i'r ddeddfwriaeth.

Mae'r broses gofrestru orfodol yn golygu bod y ceidwad yn llenwi ffurflen a'i chyflwyno drwy'r post neu e-bost (copi wedi'i sganio) i'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion. Mae'r holl wybodaeth yn cael ei throsglwyddo â llaw gan staff yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion i'r gronfa ddata. Ar hyn o bryd, rydym yn bwriadu symleiddio'r broses gofrestru drwy gyflwyno porth ar-lein. Bydd hyn yn galluogi ceidwaid newydd i gofrestru eu hadar ar-lein neu i geidwaid presennol gyrchu a diweddarau eu cofnod neu ddadgofrestru os nad ydynt yn cadw adar mwyach.

Gellid defnyddio mynediad electronig drwy'r porth hefyd i fodloni gofynion statudol presennol o ran hysbysu'r llywodraeth pryd bynnag y bydd cynnydd neu ostyngiad o 20% neu fwy yn nifer yr adar a gedwir, neu newidiadau yn eu manylion cyswllt neu leoliad adar, ac ati.

Bydd y platfform ar-lein yn cael ei gyflwyno fesul cam. Bydd y cam cyntaf, sy'n debygol o gael ei gyflwyno erbyn haf 2023, yn galluogi cofrestru ar-lein; bydd camau dilynol yn galluogi pob ceidwad adar i adolygu a diweddarau ei wybodaeth.

Bydd ceidwaid yn elwa ar y gwelliannau hyn i'r broses gofrestru ar-lein beth bynnag fo

⁴ Mae "amrywiadau rheoli arferol" yn golygu—

(a) gwagio cytiau dofednod neu ddeorfeydd i'w hailstocio ar unwaith; A

(b) stocio tymhorol.

canlyniad yr ymgynghoriad hwn.

Ar gyfer beth rydym yn defnyddio'r wybodaeth?

Mae'r wybodaeth ar y gofrestr dofednod yn bwysig i atal a rheoli brigiadau o achosion clefyd adar hysbysadwy (fel fflw adar a chlefyd Newcastle). Mae fflw adar yn glefyd feirysol hynod heintus sy'n effeithio ar adar domestig ac adar gwyllt. Mae'r clefyd yn bodoli ledled y byd ond mae is-deipiau gwahanol yn fwy cyffredin mewn rhai rhanbarthau nag eraill. Mae feirysau fflw adar yn cael eu dosbarthu naill ai fel feirysau pathogenedd uchel neu isel yn dibynnu ar ddirifoldeb y clefyd mewn dofednod. Mae clefyd Newcastle yn glefyd feirysol hynod heintus ac yn aml yn ddirifol sy'n effeithio ar adar, gan gynnwys dofednod. Mae'n cael ei achosi gan fathau ffyrnig o baramycsofeirws adar math 1. Gall brigiadau o achosion o'r clefydau hyn arwain at gostau sylweddol i'r llywodraeth, diwydiant, a'r trethdalwr. Os bydd brigiad o achosion yn digwydd, mae ymyrraeth y llywodraeth yn bwysig i ddileu'r clefyd. Defnyddir yr wybodaeth ar y gofrestr i wneud y canlynol:

- cyfathrebu â cheidwaid pan fo risg uwch o ymlediad fflw adar, ac yn ystod brigiadau o achosion o fflw adar a chlefyd Newcastle, ar fesurau y mae angen iddynt eu cymryd i ddiogelu iechyd eu hadar, ac i atal y clefyd rhag lledaenu
- bodloni'r mesurau rheoli clefydau a nodir mewn deddfwriaeth ddomestig⁵ a [Strategaeth Rheoli Clefydau Adar Hysbysadwy ar gyfer Prydain Fawr](#), megis cynnal gweithgareddau gwyliadwriaeth mewn unrhyw barth cyfyngedig yn dilyn cadarnhad o achosion o glefyd
- bodloni gofynion rhyddid rhag clefydau'r UE at ddibenion masnachu yn dilyn achosion o glefyd ym Mhrydain Fawr

Argymhellodd [adolygiad 2018 y Fonesig Glenys Stacey](#) ddileu'r terfyn nifer is o adar ar gyfer cofrestru dofednod, oherwydd y risg o glefydau egsotig⁶ a'r angen gweithredol i gyrraedd pob perchennog dofednod pan fydd brigiad o achosion yn digwydd. Heb wybodaeth ddigonol a chywir am leoliad pob safle adar, mae'n amhosibl i'r llywodraeth gyfathrebu â'r holl geidwaid adar yn ystod brigiadau o achosion o glefyd neu ymgymryd â gweithgareddau sy'n ymwneud â brigiadau o achosion.

Mae cael yr wybodaeth ddiweddaraf am leoliad safleoedd adar yn cynyddu effeithiolrwydd gweithgareddau a gyflawnir gan y llywodraeth, megis asesiadau risg, olrhain ymchwiliadau, a rhannu cyfathrebiadau â cheidwaid ar sut i ddiogelu eu hadar. Felly, mae'n hanfodol bod gwybodaeth gywir a chyfredol am leoliad safleoedd adar yn cael ei chynnwys ar y gofrestr.

⁵ Gorchymyn Fflw Adar a Fflw sy'n Deillio o Adar mewn Mamaliaid (Lloegr) (Rhif 2) 2006, fel y'i diwygiwyd yn Lloegr, Gorchymyn Fflw Adar a Fflw sy'n Deillio o Adar mewn Mamaliaid (Cymru) (Rhif 2) 2006, fel y'i diwygiwyd yng Nghymru, a Gorchymyn Fflw Adar a Fflw sy'n Deillio o Adar mewn Mamaliaid (Yr Alban) 2006, fel y'i diwygiwyd yn yr Alban.

⁶ Mae fflw adar a chlefyd Newcastle mewn dofednod ac adar caeth eraill yn cael eu hystyried yn glefydau egsotig yn y DU.

Polisi arfaethedig

Rydym yn ymgynghori ar dri opsiwn, fel a ganlyn:

- **Llinell sylfaen** – Peidio â newid y gofynion cofrestru dofednod presennol
- **Opsiwn 1 (yr opsiwn a ffefrir)** – Ymestyn y gofyniad cofrestru i bob ceidwad adar¹, gan gynnwys diweddariad blynyddol gorfodol i'r wybodaeth gofrestru
- **Opsiwn 2** – Ymestyn y gofynion cofrestru i geidwad¹ o ddeg neu fwy o adar, gan gynnwys diweddariad blynyddol gorfodol i'r wybodaeth gofrestru

Gwneud dim a pharhau i gymhwyso'r gofynion cofrestru gorfodol presennol

O dan yr opsiwn hwn, byddwn yn parhau i fandadu unrhyw un sy'n cadw 50 neu fwy o ddofednod ar unrhyw safle unigol i gofrestru drwy gwblhau'r [ffurflen gofrestru orfodol bresennol](#) a'i chyflwyno i'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion.

Bydd yn ofynnol i'r ceidwad hysbysu'r gweinidogion perthnasol drwy'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion o fewn mis i'r canlynol:

- newidiadau penodedig i rywfaent o'r wybodaeth ar gofrestr dofednod Prydain Fawr (fel nifer y rhywogaethau dofednod a gedwir a manylion y ceidwad)
- cynnydd neu ostyngiad o 20% neu fwy yn nifer yr adar o rywogaethau dofednod, oni bai fod y newid oherwydd amrywiadau rheoli arferol

Ni fydd yn ofynnol yn gyfreithiol i unrhyw geidwad sydd â llai na 50 o ddofednod neu geidwaid adar caeth eraill ddarparu gwybodaeth ar y gofrestr ond byddant yn parhau i gael eu hannog i gofrestru eu hadar yn wirfoddol gan ddefnyddio fersiwn symlach y ffurflen gofrestru.

Ein barn ni ar hyn o bryd yw bod perygl i'r opsiwn hwn fethu â mynd i'r afael â materion a nodwyd fel gwersi o'r achosion o ffliw adar yn 2021/2022 a'r achosion blaenorol o ffliw adar. Ni fydd hefyd yn mynd i'r afael â'r argymhelliad gan [adolygiad 2018 y Fonesig Glenys Stacey](#), a ddadleuodd dros ddileu'r terfyn nifer is o adar ar gyfer cofrestru adar, oherwydd y risg o glefydau egsotig a'r angen gweithredol i gyrraedd pob perchennog dofednod pan fydd brigiad o achosion yn digwydd.

Opsiwn 1: Ymestyn y gofynion cofrestru i bob ceidwad adar, gan gynnwys diweddariad blynyddol gorfodol i'r wybodaeth gofrestru

Opsiwn 1 yw'r opsiwn a ffefrir gennym. Byddai'r opsiwn hwn yn golygu gwneud y newidiadau canlynol i'r gofynion cofrestru dofednod gorfodol presennol ym Mhrydain Fawr drwy ddiwygio deddfwriaeth i wneud y canlynol:

- Ymestyn y gofynion cofrestru gorfodol presennol i gynnwys pob ceidwad adar (dofednod² ac adar caeth eraill³) a gostwng y trothwy cofrestru o 50 aderyn i un

aderyn. Bydd y cynnig hwn yn eithrio adar anwes⁷ sy'n cael eu cadw'n gyfan gwbl o fewn annedd ddomestig.

- Ei wneud yn orfodol i bob ceidwad adolygu a diweddarau ei wybodaeth ar y gofrestr erbyn dyddiad penodol ac o fewn amserlen y cytunwyd arni, bob blwyddyn.

Rydym yn ystyried dull graddol o weithredu'r newidiadau arfaethedig. Byddai'r elfen gofrestru orfodol yn cael ei rhoi ar waith ddiwedd 2023 neu ddechrau 2024 a bydd y diweddariad gorfodol blynyddol arfaethedig yn dod i rym 12 mis yn ddiweddarach.

Ymestyn y gofynion cofrestru gorfodol presennol i gynnwys pob ceidwad adar (dofednod ac adar caeth eraill) trwy ostwng y trothwy cofrestru o 50 aderyn i un aderyn.

Mae'r gofynion deddfwriaethol presennol yn berthnasol i geidwad sydd â 50 neu fwy o dofednod ar unrhyw un safle. Mae angen gwybodaeth am leoliad pob aderyn (waeth beth fo'i rywogaeth) i gyflawni mesurau rheoli clefydau egsotig yn effeithiol ac yn y pen draw helpu i leihau'r tebygolrwydd o achosion o glefydau adar hysbysadwy a'u heffaith.

Rydym yn cynnig ymestyn y gofynion cofrestru presennol i gynnwys unrhyw geidwad dofednod ac adar caeth eraill a lleihau'r gofyniad i gofrestru o 50 aderyn i un aderyn. Byddai hyn yn golygu y byddai'n ofynnol i unrhyw berson sy'n cadw un neu fwy o unrhyw fath o aderyn (gan gynnwys colomennod rasio) gofrestru'r aderyn/adar drwy ddarparu gwybodaeth benodedig sy'n ymwneud â'r adar hynny ac at ba ddiben y maent yn cadw'r aderyn/adar, a'u manylion cyswllt. Ni fyddai'r cynnig hwn yn cael effaith ar adar anwes⁷ sy'n cael eu cadw'n gyfan gwbl o fewn annedd ddomestig. Er enghraifft, parot neu fyji a gedwir mewn cawell yn gyfan gwbl o fewn annedd ddomestig ac nad yw byth yn gadael yr annedd dan sylw ac eithrio ar gyfer sylw milfeddygol neu gyfnodau tymor byr (ychydig ddyddiau neu 2-3 wythnos) pan na all y perchennog edrych ar ôl yr aderyn/adar ei hun.

Byddai'r cynnig hwn yn dod â phawb sy'n cadw colomennod rasio i mewn i gwmpas, y mae'n ofynnol iddynt ar hyn o bryd gofrestru eu sefydliad gyda'r awdurdod llywodraeth perthnasol er mwyn symud eu hadar i Ogledd Iwerddon neu'r UE i'w rhyddhau ar unwaith i rasio i Brydain Fawr.

Diweddariadau blynyddol gorfodol i'r wybodaeth gofrestru

Byddai diweddariadau blynyddol gorfodol i wybodaeth gofrestru ar gyfer pob ceidwad yn gwella cywirdeb data i helpu i atal a rheoli clefydau, er y nodir na fyddai cofrestrriad blynyddol o reidrwydd yn cyfateb i'r cylch cynhyrchu ar gyfer pob system.

⁷At ddiben yr ymgynghoriad hwn yn unig, mae "aderyn anwes" yn sbesimen o rywogaethau adar heblaw: ieir, twrcïod, ieir gini, hwyaid, gwyddau, soffieir, colomennod, adar hela, estrys, rheoad ac emws, ac elyrch, ac a gedwir yn gyfan gwbl o fewn annedd ddomestig at ddibenion anfasnachol.

Rydym yn ceisio eich barn ar y cynnig i'w gwneud yn orfodol i bob ceidwad adolygu a diweddarau ei wybodaeth ar y gofrestr erbyn dyddiad penodol ac o fewn amserlen y cytunwyd arni.

Byddai'r cynnig hwn yn helpu i wella cywirdeb y data a gedwir gan yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion ar y gronfa ddata a helpu'r llywodraeth i atal a rheoli clefydau. Byddai'r newidiadau arfaethedig yn ychwanegol at y rhwymedigaeth bresennol i geidwad hysbysu'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion o fewn mis o nifer o newidiadau penodedig i'r wybodaeth ar y gofrestr fel y nodir ar dudalen 10.

Ni fydd y newidiadau arfaethedig yn cael eu rhoi ar waith hyd nes y bydd ceidwaid newydd yn gallu cofrestru eu haderyn/adar drwy'r porth ar-lein a bod y rhai sydd eisoes wedi cofrestru yn gallu adolygu a diweddarau eu gwybodaeth drwy'r platfform ar-lein.

Opsiwn 2: Ymestyn gofynion cofrestru i geidwad deg neu fwy o rywogaethau adar, gan gynnwys diweddariad blynyddol gorfodol i'r wybodaeth gofrestru

Byddai'r opsiwn hwn yn golygu gwneud y newidiadau canlynol i'r gofynion cofrestru dofednod presennol drwy:

- Ymestyn y gofynion cofrestru i gynnwys unrhyw geidwad¹ gyda deg neu fwy o adar (dofednod² ac adar caeth eraill³) ar unrhyw safle unigol. Bydd y cynnig hwn yn eithrio adar anwes⁷ sy'n cael eu cadw'n gyfan gwbl o fewn annedd ddomestig.
- Gofyniad gorfodol i bob ceidwad adolygu a diweddarau ei wybodaeth ar y gofrestr erbyn dyddiad penodol ac o fewn amserlen y cytunwyd arni, bob blwyddyn.

Yn debyg i Opsiwn 1, ystyrir aderyn anwes⁷ sy'n cael ei gadw'n gyfan gwbl o fewn annedd ddomestig y tu allan i gwmpas y newidiadau arfaethedig hyn.

Er y bydd yr opsiwn hwn yn casglu mwy o wybodaeth am rai ceidwaid o'i gymharu â'r opsiwn gwneud dim, rydym yn ystyried na fyddai'n gwella'r wybodaeth a gedwir ar y gofrestr dofednod yn ddigonol i unrhyw fudd sylweddol. Er enghraifft, ni fyddai'n cynyddu effeithiolrwydd nac effeithlonrwydd gweithgareddau a gyflawnir gan y llywodraeth cyn neu yn ystod achosion o fflw adar neu glefyd Newcastle.

Rydym yn ystyried na fyddai Opsiwn 2 yn mynd i'r afael yn llawn â'r argymhelliad gan [adolygiad 2018 y Fonesig Glenys Stacey](#).

Byddai'r opsiwn hwn hefyd yn cynnwys dull graddol o weithredu'r cynigion, gyda'r elfen cofrestru gorfodol ar waith diwedd 2023 neu ddechrau 2024 a'r diweddariad gorfodol blynyddol arfaethedig yn dod i rym 12 mis yn ddiweddarach.

Cwestiynau penodol i'r ymgynghoriad

Fel y nodir ar dudalen 12 y ddogfen ymgynghori hon, rydym yn ymgynghori ar dri opsiwn:

- **Peidio** â newid y gofynion cofrestru presennol.
- Byddai **Opsiwn 1 (yr opsiwn a ffefrir)** yn ymestyn y gofynion cofrestru gorfodol presennol i gynnwys pob ceidwad adar drwy ostwng y trothwy cofrestru o 50 aderyn i un aderyn.
- Byddai **Opsiwn 2** yn ymestyn y gofynion cofrestru i geidwad deg neu fwy o adar, gan gynnwys diweddarau blynyddol gorfodol i'r wybodaeth gofrestru.

11.

a. **Nodwch yr opsiwn sydd orau gennych a pham** (dewiswch un opsiwn):

- Gwneud dim (dim newid i'r gofynion cofrestru presennol)
- Opsiwn 1
- Opsiwn 2
- Nid oes gennyf i neu gennym ni opsiwn a ffefrir

b. **Eglurwch y rhesymau dros eich ateb isod**

12.

a. **I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i ymestyn y gofynion cofrestru dofednod i gynnwys pob rhywogaeth o adar?** (dewiswch un opsiwn yn unig).

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf

b. **Eglurwch y rhesymau dros eich ateb**

13.

a. **Fel y nodir yn opsiynau 1 a 2 uchod, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i ostwng y trothwy cofrestru ar gyfer pob rhywogaeth o adar (ac eithrio adar anwes⁷ sy'n cael eu cadw'n gyfan gwbl mewn annedd ddomestig)?** (dewiswch un opsiwn fesul cynnig).

	Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim cytuno nac yn anghytuno	yn Anghytuno	Anghytuno'n gryf	Ddim yn gwybod
Gostwng y trothwy cofrestru ar						

gyfer pob rhywogaeth o adar o 50 i 1						
Gostwng y trothwy cofrestru ar gyfer pob rhywogaeth o adar o 50 i 10						

b. Eglurwch y rhesymau dros eich ateb

14. Fel y nodir yn **opsiynau 1 a 2** uchod, rydym yn ystyried eithrio adar anwes⁷ a gedwir mewn annedd ddomestig rhag y newidiadau arfaethedig i'r gofynion cofrestru gorfodol. Byddai hyn yn golygu y byddai ceidwad adar anwes yn cael ei eithrio rhag cofrestru adar o'r fath.

a. A ydych chi'n meddwl y dylai adar anwes⁷ sy'n cael eu cadw mewn annedd ddomestig yn unig gael eu heithrio o'r cynnig i ymestyn y gofynion cofrestru gorfodol i bob rhywogaeth o adar? (dewiswch un opsiwn yn unig)

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn gwybod

a. Eglurwch y rhesymau dros eich ateb

15.

a. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â gorfodi pob ceidwad adar i adolygu a diweddarau ei wybodaeth ar y gofrestr yn flynyddol erbyn dyddiad penodol? (dewiswch un opsiwn yn unig).

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf

b. Eglurwch y rhesymau dros eich ateb

16.

a. Yn dilyn ymlaen o gwestiwn 15, pryd ydych chi'n meddwl y dylid anfon y nodyn atgoffa blynyddol at geidwaid? (dewiswch un opsiwn yn unig).

- 1 Mehefin bob blwyddyn
- 1 Gorffennaf bob blwyddyn
- 1 Rhagfyr bob blwyddyn
- Nid oes gennyf i neu gennym ni opsiwn a ffefrir
- Arall

b. Os arall, nodwch, gan roi rhesymau dros eich ateb

17. Byddai'r cynnig i'w gwneud yn ofynnol i geidwaid ddiweddarau eu gwybodaeth gofrestru yn flynyddol yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gael mynediad at eu gwybodaeth trwy borth ar-lein. Cynigir cyfnod pontio o 12 mis cyn i gynigion a gyflwynir ddod i rym er mwyn darparu ar gyfer hyn.

a. Yn eich barn chi, a yw'r cyfnod pontio arfaethedig o 12 mis ar gyfer y gofynion diweddarau blynyddol gorfodol newydd yn (dewiswch un opsiwn yn unig).

- Rhesymol?
- Rhy fyr?
- Rhy hir?
- Ddim yn gwybod / dim sylw

b. Eglurwch y rhesymau dros eich ateb

18. A oes gennych wybodaeth neu dystiolaeth ychwanegol am effeithiau posibl y diwygiad arfaethedig i'r gofynion cofrestru dofednod gorfodol a'r estyniad i bob rhywogaeth o adar fel y nodir yn Opsiwn 1?

19. A oes gennych chi wybodaeth neu dystiolaeth ychwanegol am effeithiau posibl y diwygiad arfaethedig i'r gofynion cofrestru dofednod gorfodol a'r estyniad i geidwaid deg neu fwy o adar fel y nodir yn Opsiwn 2?

20. A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud wrthym ynglŷn â'r diwygiadau arfaethedig i'r gofynion cofrestru?

Cwestiynau cyffredinol eraill

21. (Ar gyfer ceidwaid â mwy na 50 neu fwy o ddofednod yn unig) **Ar gyfartaledd, faint o amser mae'n ei gymryd i chi lenwi'r [ffurflen gofrestru orfodol](#) er mwyn cofrestru eich adar?**

- 1 – 14 munud
- 15 – 29 munud
- 30 munud – 1 awr
- Dros 1 awr
- Amherthnasol

22. (Ar gyfer pob ceidwad adar) **Pa mor aml mae niferoedd pob rhywogaeth o adar a gedwir ar eich safle yn newid (cynyddu neu ostwng) mwy nag 20% mewn blwyddyn?**

Newidiadau posibl yn y dyfodol

Mae gwaith yn mynd rhagddo ar draws y llywodraeth i wella'r data ar heidiau a gesglir ar gyfer y Rhaglenni Rheoli Cenedlaethol ar gyfer salmonela mewn dofednod. Er bod y gofrestr dofednod yn casglu ystod o wybodaeth, nid yw'n casglu data ar heidiau. Mae'n ofynnol i weithredwyr o fewn Rhaglenni Rheoli Cenedlaethol ar gyfer salmonela gyflwyno gwybodaeth am heidiau trwy ddeddfwriaeth.⁸ Fodd bynnag, nid yw'r wybodaeth a gesglir yn ddigonol i benderfynu bob amser yn gywir p'un a yw targedau ar gyfer nifer yr achosion o salmonela yn cael eu cyrraedd ym mhob un o weinyddiaethau Prydain Fawr. Mesurir targedau drwy gyfeirio at gyfanswm nifer yr heidiau ym mhob sector (ieir a thwrcïod bridio, ieir sy'n dodwy wyau, brwyliaid a thwrcïod pesgi) mewn blwyddyn galendr.

Rydym yn bwriadu mynd i'r afael â hyn a byddwn yn ymgynghori ar wahân yn ddiweddarach gyda chynnig manylach. Rydym yn archwilio'r posibilrwydd o gasglu'r wybodaeth hon ar yr un llwyfan â'r gofrestr dofednod. Dim ond y rhai o fewn y Rhaglenni Rheoli Cenedlaethol fyddai angen darparu gwybodaeth am heidiau.

⁸ [Gorchymyn Rheoli Salmonela mewn Dofednod 2007 \(legislation.gov.uk\)](#)

[Gorchymyn Rheoli Salmonela mewn Heidiau o Dyrchw 2009 \(legislation.gov.uk\)](#)

[Gorchymyn Rheoli Salmonela mewn Heidiau o Frwyliaid 2009 \(legislation.gov.uk\)](#)